

Anthelmintic resistance continues to be an increasing problem for Welsh sheep farmers. One of the causes of resistance is the continued non-targeted use of wormers.

In 2010/11 Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (HCC) conducted a project with Innovis which evaluated wormer use on sheep farms in Wales. The aim of the project was to use the FECPAK system for surveillance of Faecal Egg Counts (FEC) in order to distinguish worm issues.

Eleven farms took part in the two year project, one of which was Keith Williams of Hendy Farm. Keith carried out around 30 FEC tests per year on his sheep and the result of these tests had a positive impact on the physical and financial aspect of his sheep enterprise.

Worming adult ewes

Following the latest recommendations ewes weren't wormed in the Autumn of 2010 or 2011 and this was backed up by very low FEC counts. If fluke treatment was needed then Keith would only use narrow spectrum products as advised.

Table 1. FEC results in ewes 2 weeks pre lambing

Date	Group Name	No. animals	FEC result	Treated (Y/N)
17/2/10	Early Twins	44	570	Y
19/2/10	Early Singles	59	360	N
19/2/10	Thin Twins	70	690	Y
19/2/10	Thin Singles	70	870	Y
01/3/10	Mule Twins	137	510	Y
01/3/10	Mule Singles	160	360	N

The most interesting results were found around lambing. Rather than doing the routine worming 4 weeks pre-lambing Keith was encouraged to monitor FEC to see if and when the different lambing groups needed to be treated. The extract of Keith's results in table 1 show the variation between different lambing groups which resulted in some groups of single bearing ewes not being wormed at all in 2010. Following advice, Keith did

not treat any groups of ewes with a FEC of below 500epg (eggs per gramme) unless they appeared in poor condition.

Subsequent testing of single ewes at and after lambing showed that FEC's hadn't increased which justified the decision of not treating them pre lambing.



Worming lambs

FEC is most commonly used to help decide when to treat lambs. At Hendy FEC testing showed:-

- Extremely high egg counts in May which was mostly made up of *Nematodirus*.
- Worm challenges will differ across a farm as variations were found between different groups of lambs grazing different pastures in the summer months.
- A post treatment egg count done in midsummer showed that the group 3 ML (clear) wormers were fully effective.

In his assessment of the project Keith commented: 'With time I found the FECPAK testing easier to carry out and in the end not a single group of sheep are wormed without me testing for FEC. Although I may not have greatly reduced lamb worming I have certainly changed the timing of treatments by only worming when needed which is more efficient and means I'm not wasting money.'

For more information on the latest recommendations for internal parasite control please contact HCC on 01970 625050 or visit www.hccmpw.org.uk.

November 2011

Hybu Cig Cymru Monitro llyngyr yn profi'n fuddiol yn Hendy



Mae ymwrthedd i foddion lladd llyngyr yn dal i fod yn broblem gynyddol i ffermwyr defaid yng Nghymru. Un o achosion ymwrthedd yw defnyddio moddion lladd llyngyr drwy'r amser yn ddiamcan.

Yn ystod 2010/11, bu Hybu Cig Cymru (HCC), ar y cyd ag Innovis Cyf, yn gwerthuso'r defnydd o foddion lladd llyngyr ar ffermydd defaid yng Nghymru. Nod y prosiect oedd defnyddio'r system FECPAK i gadw llygad ar Gyfrifiadau Wyau Ysgarthol (FEC) er mwyn canfod problemau ynglŷn â llyngyr.

Bu 11 fferm yn cymryd rhan yn y prosiect dros gyfnod o ddwy flynedd, ac un o'r ffermydd hynny oedd fferm Hendy sy'n eiddo i Keith Williams. Gwnaeth Keith tua 30 0 brofion FEC y flwyddyn ar ei ddefaid a chafodd canlyniadau'r profion hyn effaith fuddiol ar agweddau ffisegol ac ariannol ei fenter ddefaid.

Dilyngyru mamogiaid llawn-dwf

Yn dilyn yr argymhellion a wnaed ar dechrau y prosiect, ni chafodd y mamogiaid eu dilyngyru yn ystod hydref 2010 na 2011, a gwelwyd bod y cyfrifiadau FEC yn isel iawn. Os oedd angen triniaeth fflwcc, yna byddai Keith yn dilyn y cyngor priodol ac yn defnyddio ond y cynhyrchion rhychwant-gul.

Tabl 1. Canlyniadau FEC ar gyfer mamogiaid 2 wythnos cyn wyna

Dyddiad	Enw'r Grŵp	Nifer yr anifeiliaid	Canlyniad FEC	Wedi'u trin (Ie/Na)
17/2/10	Gefeilliaid Cynnar	44	570	Ie
19/2/10	Ŵyn Sengl Cynnar	59	360	Na
19/2/10	Gefeilliaid Tenau	70	690	Ie
19/2/10	Ŵyn Sengl Tenau	70	870	Ie
01/3/10	Gefeilliaid Miwl	137	510	Ie
01/3/10	Miwl	160	360	Na

Canfuwyd y canlyniadau mwyaf diddorol adeg wyna. Yn hytrach na dilyn yr arfer o roi moddion lladd llyngyr bedair wythnos cyn wyna, anogwyd Keith i fonitro â FEC i weld a oedd angen rhoi moddion i'r grwpiau wyna gwahanol a phryd dylid gwneud hynny. Mae'r detholiad o ganlyniadau Keith yn Nhabl 1 yn dangos y gwahaniaeth rhwng grwpiau wyna gwahanol, gan beri i rai grwpiau o famogiaid yn cario ond un oen beidio â chael moddion

lladd llyngyr yn 2010. Yn dilyn cyngor, ni wnaeth Keith rhoi driniaeth i unrhyw grwp o famogiaid gyda FEC o dan 500epg (wyau i bob gram), oni bau fod dafad i weld mewn cyflwr gwael.

Dangosodd profion diweddarach o famogiaid ag ŵyn sengl adeg wyna ac ar ôl hynny nad oedd Cyfrifiadau Wyau Ysgarthol wedi cynyddu – ac roedd hynny'n cyfiawnhau'r penderfyniad i beidio â'u trin cyn wyna.



Dilyngyru Ŵyn

Mae FEC yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin er mwyn helpu i benderfynu pryd i drin ŵyn. Yn Hendy, dangosodd profion FEC:-

- Cyfrifiadau uchel o wyau ym mis Mai, y rhan fwyaf yn wyau Nematodirus.
- Bydd bygythiadau llyngyr yn amrywio ar draws un fferm. Cafwyd hyd i amrywiadau rhwng grwpiau gwahanol o ŵyn yn pori ar borfeydd gwahanol yn ystod misoedd yr haf.
- Mewn cyfrifiad wyau a wnaed ar ôl triniaeth ganol yr haf, gwelwyd bod y moddion lladd llyngyr yng ngrŵp 3 ML (clir) yn gwbl effeithiol.

Wrth asesu'r prosiect, meddai Keith: 'Gydag amser, cefais fod y profion FECPAK yn haws eu gwneud. Yn y diwedd, does dim un grŵp o ddefaid yn cael eu dilyngyru heb i mi wneud profion ar gyfer FEC. Er efallai nad wyf wedi lleihau dilyngyru'r ŵyn yn fawr, yn sicr rwyf wedi newid amseriad y triniaethau trwy ddilyngyru ond pan fo angen gwneud hynny. Ac mae hynny'n fwy effeithlon o lawer ac yn golygu nad wyf yn gwastraffu arian.'

I gael rhagor o wybodaeth am yr argymhellion diweddaraf ar gyfer rheoli parasitiaid mewnol, byddwchystal â chysylltu â HCC ar 01970 625050 neu ewch i www.hccmpw.org.uk.

Tachwedd 2011

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007 - 2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.

This project has received funding through the Rural Development Plan for Wales 2007 - 2013 which is funded by the Welsh Government and the European Union.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government